GIG CYMRU NHS WALES | Iechyd Cyhoeddus Cymru Public Health Wales

# Ein dull o ymdrin ag anghydraddoldebau iechyd

## Fframwaith ar gyfer gweithredu yn Iechyd Cyhoeddus Cymru

Iechyd Cyhoeddus Cymru



# 1. Meysydd gweithredu a rhestr wirio Tegwch Iechyd

Mae'r fframwaith hwn yn darparu dulliau seiliedig ar dystiolaeth i gefnogi gwaith ledled Iechyd Cyhoeddus Cymru wrth fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd. Gellir defnyddio'r fframwaith hwn yn ystod gwneud penderfyniadau, prosesau cynllunio, a chynnal monitro a gwerthuso. Gellir ei ddefnyddio ochr yn ochr â rhaglenni ac offer eraill megis asesu effaith. Bydd elfennau o'r fframwaith hwn yn gyfarwydd ac yn naturiol i rhai staff, ond mae'n bwysig fel sefydliad ein bod yn mabwysiadu'r dull hwn yn gyson ar draws pob agwedd o'n gwaith a'n gwasanaethau. Gobeithiwn y bydd y fframwaith hwn yn annog meddwl systematig a beirniadol o gwmpas y mater o fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd.

Tegwch iechyd yw ein gweledigaeth, ac rydym yn ei ddiffinio fel sefyllfa pan nad oes anghydraddoldebau iechyd y gellir eu hosgoi rhwng grwpiau o bobl. Mae'r rhain yn systemig, wedi'u cynhyrchu'n gymdeithasol ac yn annheg, gan ddeillio o adnoddau yn cael eu dosbarthu'n annheg o fewn ein cymdeithas. Bydd tegwch iechyd yn bodoli pan all pawb gael yr iechyd a'r llesiant gorau sy'n bosibl iddyn nhw

## Gweledigaeth a ffyrdd o weithio tuag at degwch iechyd

**Yn Iechyd Cyhoeddus Cymru, ein nod cyffredinol yw cynyddu disgwyliad oes iach a lleihau'r bwlch mewn disgwyliad oes iach rhwng y mwyaf difreintiedig a'r lleiaf difreintiedig.**

**Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus, gan gynnwys Iechyd Cyhoeddus Cymru, gyflawni datblygu cynaliadwy yn unol â'r 5 ffordd o weithio: tymor hir, atal, integreiddio, cydweithio, a chyfranogiad.**

## Meysydd gweithredu tegwch iechyd sy'n seiliedig ar dystiolaeth ar gyfer eich timau

- **Datblygu arweinyddiaeth a diwylliant sy'n ymroi i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd**
  - Defnyddio iaith gyffredin a dealladwy i bawb ynghylch cyfiawnder iechyd
  - Gweithredu yn erbyn stigma a gwahaniaethu a hyrwyddo cyfiawnder cymdeithasol
  - Gweithio gan ddefnyddio dull iechyd ym mhob polisi, wedi'i gefnogi gan offer fel asesiadau o'r effaith ar iechyd
  - Sicrhewch fod gan arweinwyr fynediad i hyfforddiant ar arweinyddiaeth systemau gynhwysol
  - Ystyried datblygu strategaethau tegwch iechyd ar gyfer eich timau
  - Ystyried datblygu hyrwyddwyr a neilltuo amser a chyllid ar gyfer tegwch iechyd yn eich timau/gwasanaethau

- **Defnyddio dull iechyd cyhoeddus yn eich gwaith**
  - Ystyried blociau adeiladu sylfaenol iechyd, e.e. incwm a thai
  - Anelu at atal problemau iechyd rhag datblygu neu waethygu
  - Defnyddio data a thystiolaeth i ddod i ddeall cymunedau ac i ddatrys problemau iechyd
  - Cydweithio â phartneriaid ar draws y system
  - Targedu poblogaethau a grwpiau gyda'ch datrysiadau, nid unigolion

- **Datblygu gweithlu amrywiol, hyfforddedig a chynaliadwy**
  - Sicrhau hyfforddiant rheolaidd i'ch tîm ar degwch iechyd
  - Cefnogaeth well i arferion recriwtio a chadw sy'n cefnogi cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant
  - Ymgyrchu dros recriwtio lleol o gymunedau tlawd, gan ddefnyddio offer fel recriwtio targedig, interniaethau a phrentisiaethau talu

- **Darparu gwasanaethau o ansawdd uchel sydd ar gael yn eang**
  - Ymgorffori gwasanaethau o fewn cymunedau a lleoliadau yn ofalus a chan ganolbwyntio ar fynd i'r afael â rhwystrau sy'n atal mynediad, e.e. trafnidiaeth a ffactorau diwylliannol neu gymdeithasol
  - Sicrhau fod y negeseuon y byddwch yn eu rhannu yn hygyrch i bawb, yn sensitif i ddiwylliant, yn hawdd i'w defnyddio, yn canolbwyntio ar y person, ac yn seiliedig ar dystiolaeth
  - Ystyried defnyddio cyd-ddylunio a chynnwys y cyhoedd

- **Casglu a chyhoeddi data a gwybodaeth o ansawdd uchel am degwch iechyd**
  - Casglu data ar lefel yr unigolyn a'r boblogaeth, gan wahanu demograffeg allweddol ac ymddygiadau iechyd
  - Gwella data ar gyfer iechyd cynhwysiant y grwpiau y mae eich gwaith yn effeithio arnynt, ac ystyried allgau digidol posibl yn eich gwaith
  - Casglu data ar anghenion sydd ddim yn cael eu bodloni, gan gynnwys data ansoddol gan bobl sydd â phrofiad bywyd perthnasol
  - Buddsoddi yng ngalluoedd data a chynhwysedd eich tîm, os yn bosibl

- **Gweithio'n agos gyda grwpiau a chymunedau yng Nghymru drwy ddefnyddio rhwydweithiau a thrwy ymgysylltu a chynnwys pobl yn effeithiol**
  - Gwella ymwybyddiaeth o hawliau a chyfrifoldebau pobl o ran gofal iechyd a gwasanaethau cyhoeddus
  - Sefydlu perthnasoedd hirdymor ac ymddiriedaeth rhwng eich tîm a thimau, gwasanaethau a chymunedau eraill, gan ddefnyddio egwyddorion cyd-gynhyrchu a dull sy'n seiliedig ar le.
  - Os neu pryd ydych chi'n caffael nwyddau a gwasanaethau, ceisiwch gefnogi cymunedau lleol, yn enwedig rhai difreintiedig
  - Datblygu mecanweithiau ymgysylltu penodol gyda grwpiau sydd â chanlyniadau iechyd gwael neu ddefnyddio'r rhai sydd gan Iechyd Cyhoeddus Cymru eisoes
  - Datblygu neu ddefnyddio cysylltiadau â'r sector gwirfoddol a chymunedol
  - Ystyried ddefnyddio modelau presennol ar gyfer gwella gweithio cymunedol, e.e. rhwydweithiau arweinyddiaeth a grwpiau cyfeirio arbenigol


## Rhestr wirio tegwch iechyd ar gyfer cynllunio a phenderfynu

**Sut ydych chi'n gweithio tuag at Strategaeth Hirdymor Iechyd Cyhoeddus Cymru ac yn cyflawni'r camau gweithredu perthnasol: hysbysu, eirioli, defnyddio a chyflawni, mewn perthynas â anghydraddoldebau iechyd?**

**Ydych chi'n cydweithio â'ch holl bartneriaid allweddol, e.e. awdurdodau lleol, byrddau iechyd, a byrddau gwasanaethau cyhoeddus?**

**Ydych chi wedi ystyried effeithiau eich gwaith ar:**

- Grwpiau sydd â nodweddion gwarchodedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010
- Grwpiau iechyd cynhwysiant, e.e. pobl ddigartref
- Amgylchiadau cymdeithasol ac economaidd, yn enwedig amddifadedd a thlodi plant
- Mannau lle mae pobl yn byw, yn gweithio ac yn chwarae, gan gynnwys cymunedau gwledig, arfordirol a Chymraeg
- Sut mae'r ffactorau uchod yn effeithio ar ei gilydd (croestoriadedd)






**Ydych chi wedi ystyried yr effeithiau ar flociau adeiladu sylfaenol iechyd?**

- Gwaith teg
- Addysg a sgiliau da
- Trafnidiaeth gynaliadwy sydd wedi'i chynllunio'n dda
- Cymunedau a pherthnasoedd cryf
- Plentyndod diogel a meithringar
- Tai fforddiadwy ac o ansawdd uchel
- Digon o arian ac adnoddau
- Ac amgylcheddau corfforol iach a chylchynnau o amgylch

**Ydych chi wedi ystyried yr effeithiau ar iechyd meddwl a straen trawmatig?[1]**

**Ydych chi wedi ystyried yr effeithiau drwy gydol cwrs bywyd (blynyddoedd cynnar a phlant, oedolion o oedran gweithio, oedolion hŷn, a chylchoedd cenedlaethau)?**

**Ydych chi wedi ystyried sut y byddwch chi'n mesur ac yn gwerthuso effeithiau eich gwaith?**

## Darllen pellach ac adnoddau

Mae polisïau galluogi yng Nghymru i gefnogi gwaith ar degwch iechyd, gan gynnwys Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015, y ddyletswydd economaidd-gymdeithasol a'r rheoliadau asesiadau o'r effaith ar iechyd (HIA) sydd ar ddod. Mae'r Asesiadau o'r Effaith ar Iechyd ac offer eraill hefyd ar gael i'ch helpu chi. Darllenwch y ddogfen atodol am ragor o wybodaeth.

1 https://acehubwales.com/trauma-framework/

# 2. Ein dull

**Yn Iechyd Cyhoeddus Cymru, gyda'n partneriaid, rydym yn anelu at gynyddu disgwyliad oes iach, gwella iechyd a lles, a lleihau anghydraddoldebau i bawb yng Nghymru, nawr ac i genedlaethau'r dyfodol. Gallwn wneud gwahaniaeth pwerus a chyson os ystyriwn gydraddoldeb iechyd yn weithredol ac yn gyson yn ein gwaith. Os na ystyrir cydraddoldeb iechyd, mae perygl y byddwn yn atgyfnerthu - neu hyd yn oed yn ehangu - anghydraddoldebau iechyd presennol trwy ddulliau arferol o redeg busnes.**

Mae'r fframwaith hwn wedi'i gyfansoddi gyda mewnbwn gan bawb yn Iechyd Cyhoeddus Cymru ac mae'n berthnasol i bawb sy'n gweithio ledled y sefydliad, ond gallai fod yn arbennig o ddefnyddiol i'r rhai sy'n cymryd rhan mewn cynllunio, strategaeth a gwneud penderfyniadau. Rydym yn argymell i chi integreiddio hwn i'r prosesau hynny. Mae naratif tegwch iechyd sy'n rhoi trosolwg symlach o ein dull o wynebu anghydraddoldebau iechyd. Mae dogfen atodol ar gael ar gyfer y fframwaith sy'n cynnig gwybodaeth, offer ac adnoddau mwy manwl.

Gellir darllen y fframwaith ar unrhyw adeg. Rydym yn argymell ei ddarllen pan fyddwch yn gwneud penderfyniadau pwysig, yn enwedig rhai o natur strategol. Mae'r rhain yn gyfleoedd hanfodol i lunio timau a gwasanaethau er budd tegwch iechyd, felly sicrhewch eich bod yn neilltuo peth amser i hyn. Gallwch hefyd ddefnyddio'r fframwaith i ddatblygu strategaeth tegwch iechyd bwrpasol ar gyfer eich tîm/gwasanaeth.

Tegwch iechyd yw ein gweledigaeth, ac rydym yn ei ddiffinio fel sefyllfa pan nad oes anghydraddoldebau iechyd y gellir eu hosgoi rhwng grwpiau o bobl. Mae'r rhain yn systemig, wedi'u cynhyrchu'n gymdeithasol ac yn annheg, gan ddeillio o adnoddau yn cael eu dosbarthu'n annheg o fewn ein cymdeithas [2]. Bydd tegwch iechyd yn bodoli pan all pawb gael yr iechyd a'r llesiant gorau sy'n bosibl iddyn nhw.

Er mwyn mynd i'r afael â chydraddoldeb iechyd, rhaid cymryd camau cydlynol ar draws y system iechyd a gofal, gyda phartneriaid lleol, rhanbarthol a chenedlaethol yn cydweithio. Bydd hyn yn cynnwys defnyddwyr gwasanaethau, cymunedau lleol, sefydliadau'r trydydd sector, awdurdodau lleol a gofal iechyd a chymdeithasol.

2 https://www.who.int/health-topics/health-equity#tab=tab_1

Y pum ffordd o weithio a geir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol sy'n llywio ein dull o ymdrin ag anghydraddoldebau iechyd[3]. Mae'r rhain yn cynnwys:

1. **Meddwl hirdymor** – Cydbwyso enillion tymor byr â'r angen i gynyddu disgwyliad oes iach ac i leihau'r bylchau cysylltiedig mewn ffordd gynaliadwy ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol
2. **Atal** – Gweithredu i atal anghydraddoldebau iechyd rhag digwydd neu rhag gwaethygu
3. **Integreiddio** – Ystyried sut mae ein gwaith tegwch iechyd yn rhyngweithio â'r nodau llesiant ac yn eu cefnogi ( Cymru iachach, Cymru sy'n fwy cyfartal, Cymru gydnerth, Cymru ffyniannus, Cymru o gymunedau cydlynus, Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu, a Chymru sy'n gyfrifol ar lefel byd-eang)
4. **Cydweithio** – Gweithio gyda rhannau eraill o Iechyd Cyhoeddus Cymru a chyrff cyhoeddus eraill, gan gynnwys GIG Cymru, ein hasiantaethau partner a llywodraeth leol.
5. **Cyfranogiad** – Cynnwys gwahanol grwpiau a chymunedau ledled Cymru yn ein gwaith, gan sicrhau bod amrywiaeth o bobl yn cymryd rhan a bod y rhai y mae anghydraddoldebau iechyd yn effeithio arnynt yn cael eu cynnwys.

Mae'r gwaith y mae ein hadran sgrinio yn ei wneud ar degwch yn enghraifft o'r meysydd gweithredu ar waith[4]:

- Mae patrwm cymdeithasol cryf yn y nifer sy'n cael profion sgrinio, gyda'r niferoedd isaf i'w cael yn y grwpiau sydd dan anfantais economaidd-gymdeithasol. Yn achos sgrinio am ganser, bydd gan y grwpiau hyn gyfraddau uwch o glefydau ac felly nhw fyddai'n elwa fwyaf o sgrinio.
- Mae ymrwymiad a strategaeth bwrpasol ar gyfer tegwch iechyd sy'n nodi nifer o gamau gweithredu ac amserlenni cysylltiedig.
- Mae gan bob rhaglen ei hyrwyddwr iechyd sy'n cwrdd yn rheolaidd, ac mae 'offer asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb ac iechyd' yn cael eu hymgorffori yn ymarferol.
- Mae sawl math o annhegwch sgrinio posibl yn cael eu monitro'n rheolaidd a'u defnyddio i werthuso'r gwasanaeth, gan gynnwys data meintiol ac ansoddol.
- Mae gwaith ymgysylltu amlwg â defnyddwyr gwasanaeth a grwpiau penodol, gan gynnwys rhwydwaith ymgysylltu â sgrinio sy'n cyfarfod yn rheolaidd.
- Mae sylw penodol yn cael ei roi ar gyfathrebu hygyrch a goresgyn rhwystrau.
- Mae cydweithio cadarnhaol yn digwydd gyda phartneriaid, gan gynnwys timau iechyd y cyhoedd lleol, clystyrau gofal sylfaenol a'r sector gwirfoddol a chymunedol. Mae hyn yn cynnwys grŵp sgrinio ac anghydraddoldebau sy'n cyfarfod yn rheolaidd i rannu dysg.

3 https://futuregenerations.wales/discover/about-future-generations-commissioner/future-generations-act-2015/
4 Adroddiad Annhegwch Adran Sgrinio 2023 - Iechyd Cyhoeddus Cymru

Mae angen i'r holl flociau adeiladau cywir fod yn eu lle ar gymunedau ffyniannus a chyfartal: o amgylcheddau diogel ac aer glân, i gartrefi gweddus a swyddi da. Mae gan wasanaethau cyhoeddus rôl allweddol i'w chwarae wrth adeiladu lleoedd iach, drwy sicrhau bod y blociau adeiladu hyn yn eu lle a sicrhau bod mynediad cyfartal atynt.

Gan gydnabod hyn, mae Llunio Lleoedd ar gyfer Llesiant yng Nghymru yn rhaglen tair blynedd a ariennir gan y Sefydliad Iechyd i helpu Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus i ddefnyddio meddwl trwy systemau wrth weithredu ar flociau adeiladu iechyd.

Gall meddwl trwy systemau ein helpu i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd gan ei fod yn:

- Ffordd o ddeall a mynd i'r afael â sefyllfaoedd cymhleth drwy eu gweld fel cyfanweithiau cydgysylltiedig yn hytrach na rhannau ynysig. Gall hyn ein helpu i ystyried effeithiau ein gwaith ar flociau adeiladu iechyd
- Pwysleisio rhyngberthnasau, safbwyntiau amrywiol a dyfarniadau ar ffiniau i archwilio sut mae gwahanol elfennau'n rhyngweithio o fewn system. Mae hyn yn helpu i wneud penderfyniadau mwy gwybodus a chynaliadwy. Gall hyn ein helpu i feddwl am leisiau pwy sydd â phŵer a dylanwad yn ein gwaith, a lleisiau pwy sy'n cael eu hymyleiddio.
- Ddull holistaidd, a all ein helpu i ddeall beth yw achosion sylfaenol y patrymau a welwn. Gall hyn ein helpu i ystyried goblygiadau hirdymor ein gweithredoedd a sicrhau ein bod yn gwreiddio atal a meddwl hirdymor yn ein strategaethau a'n cynlluniau.

Mae anghydraddoldebau wedi bod yn faes y canolbwyntir arno ers tro byd yng ngwaith Iechyd Cyhoeddus Cymru ar draws ehangder gwasanaethau diogelu iechyd. Mae ein gwaith ar frechu teg a diogelu iechyd cynhwysiant yn fyd-enwog. Dangosodd pandemig COVID-19 i ni fod yn rhaid i ni wneud mwy i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau o ganlyniad i fygythiadau i'n hiechyd o glefydau heintus a pheryglon eraill. Beth arall allwn ni ei wneud i liniaru effaith niwed o fygythiadau iechyd ar ein pobl fwyaf agored i niwed?

Mae'r Canllaw Gorau ar Anhegwch Diogelu Iechyd yn rhan o raglen o waith ar anghydraddoldebau diogelu iechyd sy'n canolbwyntio ar yr hyn y gallwn ni ei wneud yn Iechyd Cyhoeddus Cymru. Fe'i cynlluniwyd i roi mewnwelediadau ymarferol, strategaethau profedig ac argymhellion y gellir eu rhoi ar waith i fynd i'r afael ag annhegwch sy'n deillio o fygythiadau i iechyd i'n pobl yn Iechyd Cyhoeddus Cymru. Mae hefyd yn rhoi sbringfwrdd i gydweithio â'n partneriaid yn y system diogelu iechyd ledled Cymru i leihau effeithiau anghyfartal bygythiadau iechyd yn ein cymunedau. Lluniwyd yr adnodd cynhwysfawr hwn gan dîm y Rhaglen Anghydraddoldebau Diogelu Iechyd. Maent wedi defnyddio sylfaen dystiolaeth gref i ddarparu adnoddau ymarferol a strategaethau i wella ein gallu i ddarparu gwasanaethau diogelu iechyd rhagorol.

Awduron y fframwaith:
Daniel Jones, Cofrestrydd Arbenigol Iechyd y Cyhoedd,
Jo Peden, Ymgynghorydd Iechyd y Cyhoedd

Hoffem gydnabod y cymorth a'r gefnogaeth a gafwyd gan holl aelodau grŵp llywio ac is-grŵp fframwaith Ein Dull o Ymdrin ag Anghydraddoldebau Iechyd sy'n cwmpasu'r sefydliad cyfan, yn ogystal â chyfranogwyr ein gweithdy profi defnyddwyr o bob cwr o Iechyd Cyhoeddus Cymru, Llais, ein tîm gwyddor ymddygiad, a thîm ymgysylltu Iechyd Cyhoeddus Cymru.

ISBN: 978-1-83766-783-3